No.

## CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 8 Mehefin, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, S. Sivagnanam, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd E. Goodjohn and Dr. I.J. Johnson

### C18 CYHOEDDIAD -

Croesawodd yr Arweinydd yr holl bartïon i gyfarfod y Cabinet ac atgoffodd bawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei Ffrydio'n Fyw yn ogystal â'i recordio ar y rhyngrwyd, ac y byddai'r recordiad hwnnw'n cael ei archifo i'w wylio yn y dyfodol.

Gofynnodd a wnâi'r holl gyfranogwyr roi'r mudydd ymlaen pan nad oeddent yn siarad er mwyn osgoi unrhyw sŵn cefndir neu adlif pan fyddai'r cyfranogwyr eraill yn siarad, a phe bai cyfranogwr yn dymuno siarad a allent roi llaw i fyny (i gael eu gweld ar y sgrin) neu ddefnyddio'r botwm 'codi llaw'.

Gofynnwyd i'r aelodau sicrhau bod pob dadl yn cael ei chodi ar lafar yn hytrach na thrwy'r cyfleuster sgwrsio, er mwyn cael cofnod llawn. Gellir defnyddio'r cyfleuster 'sgwrsio i dynnu sylw at unrhyw broblemau technegol ac/neu i dynnu sylw'r Cadeirydd neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

### C19 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mai, 2023 fel cofnod cywir.

### C20 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### C21 DEFNYDD O BWERAU ARGYFWNG Y PRIF WEITHREDWR (AG/BA) (CRAFFU – I GYD)–

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a luniwyd i hysbysu’r Cabinet am Bwerau Argyfwng a arferwyd gan y Prif Weithredwr ers yr adroddiad diwethaf ar 27 Ebrill 2023. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Cabinet, ac roedd

adran 2 yr adroddiad yn trafod materion fel diwygiadau i gyllidebau, newid gwariant refeniw i wariant cyfalaf a derbyn cyllid grant.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD – Nodi'r defnydd o Bwerau Argyfwng y Prif Weithredwr.

Rheswm dros y penderfyniad

Hysbysu'r Cabinet.

**C22 DIWEDDARIAD PLATFFORM CYFARFOD HYBRID (AG/BA) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a luniwyd i hysbysu'r Cabinet ynghylch canfyddiadau profion atchweliad platfform Cyfarfodydd Hybrid Civico, a'r penderfyniad a argymhellwyd o ran sut i fwrw ymlaen â chyfarfodydd cyhoeddus hybrid. Ers y pandemig pan fu'n rhaid gwneud penderfyniadau cymhleth ar faterion drwy drafodaeth dros y ffôn, roedd cyfarfodydd wedi esblygu i alluogi pobl i fod yn bresennol wyneb yn wyneb, gartref neu yn y swyddfa, gan alluogi pobl i gymryd rhan yn llawn mewn modd hybrid neu aml-leoliad. Roedd yr aelodau'n weladwy i'r cyhoedd a'r cyfarfodydd yn cael eu recordio a'i ffrydio'n fyw fel eu bod yn parhau i fod yn agored a thryloyw. Roedd yr adroddiadau Rhan I a Rhan II dan ystyriaeth yn rhoi'r newyddion am y sefyllfa ddiweddaraf.

Roedd yr adroddiad yn gysylltiedig ag adroddiad Rhan II yn ddiweddarach ar yr agenda a oedd yn cynnwys data masnachol sensitif, ond yn tynnu sylw at y gwaith sylweddol a gyflawnwyd gan Swyddogion ym mhrofion atchweliad platfform cyfarfodydd Hybrid Civico, y gwaith casglu data a gyflawnwyd ar draw Awdurdodau Lleol Cymru a'r cyflenwyr yn y farchnad a oedd yn llywio'r gofynion swyddogaethol a nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad, ac a dderbyniwyd fel llinyn mesur i asesu'r cynnyrch presennol, gyda chanlyniad cam asesu'r prosiect wedi'i drafod yn adroddiad Rhan II.

Nodwyd ym mharagraffau 2.10 a 2.11 yr adroddiad, nid oedd Civico mwyach yn datblygu'r platfform yr oedd ganddo gontract cyfredol â'r Cyngor i'w ddarparu, ac yn lle hynny yr oedd wedi datblygu datrysiad newydd gan ychwanegu ffwythiannau fel pleidleisio hybrid at y platfform Microsoft Teams. Roedd y datrysiad hwnnw wedi cael ei ddangos i'r tîm prosiect, ond nid fu modd dangos y datrysiad yn llawn fel y disgwyliwyd.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar yr opsiwn a ffafrir i'r dyfodol, fel y nodwyd ym mharagraffau 2.18 a 2.19, ynghyd â chostau cysylltiedig a oedd wedi'u cynnwys yn adroddiad Rhan II, a fyddai'n caniatáu profion pellach yn ystod y flwyddyn gychwynnol i ennyn hyder yn y system newydd cyn ymrwymo i drefniant contract tymor hwy. Yn ôl paragraff 2.26 yr adroddiad, byddai Microsoft Teams a ffrwd fyw drwy OBS a YouTube yn parhau i gael eu defnyddio i hwyluso cyfarfodydd o bell

nes nodi a gweithredu platfform Cyfarfodydd Hybrid newydd a allai fodloni gofynion cyfieithu addas.

Roedd paragraff 2.22 yn ymwneud â’r gwaith a wnaed gan Swyddogion ar gyfer cynnig i fuddsoddi mewn cyswllt band eang 500Mbps (megabeit yr eiliad) penodedig i’w osod yn Ystafell Clyweledol Siambr y Cyngor. Roedd paragraffau 2.27 i 2.35 yr adroddiad yn cyfeirio at y goblygiadau ymarferol a'r goblygiadau o ran adnoddau, ac yn argymell y dylid cynnal astudiaeth ddichonoldeb ynghylch cynllun sefydlog Siambr y Cyngor ac Ystafelloedd Pwyllgor, gan roi ystyriaeth bellach i ddull cyfredol y Cyngor o ffrydio'n fyw ac uwchlwytho recordiadau cyfarfod, a chanfasio'r holl Aelodau Etholedig i nodi eu dewis iaith wrth gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau yr oeddent yn aelod ohonynt, i lywio cynigion ynghylch y ddarpariaeth cyfieithu i'r Gymraeg; roedd yr elfennau hyn yn faterion i'w trafod mewn diwygiadau posibl i Bolisi Cyfarfodydd Aml-leoliad y Cyngor.

Ymhellach i hyn, dywedodd yr Arweinydd y byddai'r adroddiad yn cael ei gyfeirio i sylw'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol er ystyriaeth.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi'r sefyllfa a amlinellwyd o fewn yr adroddiad ac y byddai'r Cabinet yn ystyried y data a ddarparwyd yn adroddiad Rhan II cyn penderfynu ar y ffordd ymlaen o ran opsiynau a threfniadau contractio'r Cyngor o hyn allan yn ddiweddarach ar yr agenda.

(2) Cyfeirio'r adroddiad, a'r adroddiad Rhan II ar yr un mater, yn ddiweddarach ar yr agenda, i sylw'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol er ystyriaeth.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Sicrhau bod y Cabinet yn ymwybodol o'r gwaith a oedd wedi'i wneud ers i'r Cabinet gael y diweddariad diwethaf ddydd Iau 17 Tachwedd, 2022, a chymeradwyo ffordd ymlaen.

(2) Er ystyriaeth y Pwyllgor Craffu.

**C23 GWAREDU LLAIN FACH O DIR YM MHERCHNOGAETH TAI YN NHREBEFERAD, TREBEFERAD (WCA) (CRAFFU - CARTREFI A CHYMUNEDAU DIOGEL) –**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad a luniwyd er mwyn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gael gwared â llain fach o dir tai anweithredol nad

oedd ond yn addas at ddefnydd sy'n gysylltiedig â mwynhad y tŷ annedd cyfagos yn unig (fel y nodir yn Atodiad A).

Ymgynghorwyd â Bwrdd Mewnwelediad Strategol y Cyngor i weld a oedd defnydd i'r llain o dir o fewn y Cyngor. Nid oedd unrhyw barti wedi mynegi diddordeb mewn cadw'r tir. Roedd ymgynghoriad wedi'i gynnal â'r Aelodau Ward lleol, nad oeddent wedi codi unrhyw wrthwynebiad i werthu'r tir, felly ystyriwyd nad oedd angen y tir i fodloni anghenion ehangach y Cyngor.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid datgan nad oedd angen y llain o dir Tai a ddangosir yn Atodiad A yr adroddiad ar y Cyngor.

(2) Y dylid rhoi awdurdod i'r Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladu gael gwared â'r tir a ddangosir ar y cynllun yn Atodiad A yr adroddiad o dan Adrannau 32-34 o Ddeddf Tai 1985, yn amodol ar gydymffurfio â'r darpariaethau cyfreithiol perthnasol, unrhyw ganiatadau gofynnol a Phenderfyniadau (3) - (5) isod.

(3) Y dylid dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu a'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 / Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Ariannol i gytuno ar y telerau a'r amodau priodol i gael gwared â'r llain o dir.

(4) Y dylai'r Cyngor ddibynnu ar Ganiatâd E y Caniatadau Cyffredinol ar gyfer Gwaredu Tai a Thir 1994, a wnaed o dan Ddeddf Tai 1985 er mwyn i'r gwarediad gydymffurfio â'r darpariaethau deddfwriaethol perthnasol ac unrhyw ganiatadau statudol gofynnol.

(5) Awdurdodi'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i baratoi, cwblhau a gweithredu'r dogfennau cyfreithiol ofynnol i ffurfioli unrhyw warediad yn amodol ar y Penderfyniadau uchod.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) I gydymffurfio â Chyfansoddiad y Cyngor

(2) I sicrhau cydymffurfio â'r darpariaethau deddfwriaethol perthnasol, unrhyw ganiatadau statudol gofynnol a'r Penderfyniadau uchod.

(3) I ganiatáu gwaredu'r tir ar delerau ac amodau addas.

(4) I sicrhau cydymffurfiaeth â'r darpariaethau deddfwriaethol perthnasol ac unrhyw ganiatadau statudol gofynnol.

(5) I ffurfioli gwarediad y tir yn gyfreithiol, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â statud ac yn amodol ar y Penderfyniadau uchod.

**C24 PANEL RHIANTA CORFFORAETHOL - DIWEDDARIAD I'R CYLCH GORCHWYL (GCI) (CRAFFU - BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) –**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad a luniwyd er mwyn diwygio Cylch Gorchwyl Panel Rhianta Corfforaethol y Cyngor.

Roedd Cylch Gorchwyl blaenorol y Panel Rhianta Corfforaethol yn rhoi disgrifiad o aelodaeth gytunedig y Panel, ond nid oedd yn nodi am ba mor hir y byddai'r rhai a fyddai hyd gwasanaeth y penodeion/yr enwebeion, fel yr hyn a ddigwyddai yn achos Cyrff Allanol / Cyd-bwyllgorau eraill.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai'n synhwyrol alinio'r Panel Rhianta Corfforaethol â Chyrff a Phwyllgorau eraill y Cyngor er mwyn caniatáu i'r Aelodau a eisteddai ar y Panel ddatblygu eu harbenigedd.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD – Y dylid diwygio Cylch Gorchwyl y Panel Rhianta Corfforaethol, a atodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad, i gadarnhau y byddai Aelodau a benodir neu a enwebir i wasanaethu ar y Panel Rhianta Corfforaethol yn parhau i fod ar y Panel nes cynnal yr etholiadau llywodraeth leol yn 2027.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Cadarnhau hyd aelodaeth yr Aelodau a enwebir i eistedd ar y Panel Rhianta Corfforaethol.

**C25 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –**

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

**C26 DIWEDDARIAD PLATFFORM CYFARFOD HYBRID (AG/BA) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 13 A 14) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a luniwyd er mwyn hysbysu'r Cabinet ynghylch canfyddiadau profion atchweliad platfform Cyfarfodydd Hybrid Civico, a'r

penderfyniad a argymhellwyd o ran sut i fwrw ymlaen â chyfarfodydd cyhoeddus hybrid.

Roedd Atodiad B yr adroddiad yn trafod y ddau opsiwn a gyflwynwyd gan VP/AV Sound Advice. Opsiwn 2 oedd yr opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio, a oedd yn cynnig yr holl ffwythiannau a nodwyd yn rhan o'r ymarfer gofynion ffwythiannau y cyfeirir ato yn adroddiad Rhan I. Byddai Opsiwn 1 hefyd yn cael ei gyflenwi gan yr un cwmni; fodd bynnag, roedd y feddalwedd wedi'i hintegreiddio â Microsoft Teams, ac nid oedd y cynnyrch yn bodloni cymaint o ofynion ffwythiannol y Cyngor ag Opsiwn 2.

Roedd Paragraff 2.20 yn nodi'r costau gan bob un o'r cyflenwyr, a Pharagraff 2.21 yn rhoi safbwynt y Rheolwr Gweithredol TGCh ynghylch y cyflenwr a oedd yn cael ei ffafrio.

Ar ôl adolygu'r data mewn ymgynghoriad â Thîm Caffael y Cyngor, cynigiodd yr Arweinydd y dylid ychwanegu argymhelliad at yr adroddiad, sef y dylai'r Cabinet awdurdodi'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i gyflwyno Rhag-hysbysiad Gwirfoddol yn gysylltiedig ag Argymhelliad (4), a chytunwyd â hynny.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo, a nodi'r Argymhelliad (5) ychwanegol, penderfynodd y Cabinet:

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi'r diweddariad fel yr oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.

(2) Cymeradwyo terfynu contract presennol y Cyngor â Civico a chyflwyno datrysiad amgen i ddisodli'r platfform Cyfarfodydd Hybrid Cyfredol, yn sgil canlyniadau'r profion atchweliad a gynhaliwyd gan y swyddogion.

(3) Cymeradwyo'r dull a gynigiwyd i arfarnu platfform Cyfarfodydd Hybrid amgen ar drefniant asesu perfformiad hyd at 12-mis / profi cysyniad.

(4) Y dylid dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, y Prif Weithredwr ac Arweinydd Gweithredol y Cyngor, i weithredu contract peilot 12 mis asesu perfformiad / profi cysyniad ag MVI - Easy Conf Solution, neu gyflenwr arall, gyda'r opsiwn i ymestyn y contract am gontract pellach o dair blynedd plws blwyddyn ychwanegol, yn ôl doethineb y Cyngor.

(5) Bod y Cabinet yn rhoi awdurdod i'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i gyflwyno Rhag-hysbysiad Gwirfoddol mewn perthynas â Datrysiad (4).

(6) Y dylid cynnal astudiaeth ddichonoldeb ynghylch y posibilrwydd o symud i gynllun sefydlog yn Siambr y Cyngor a'r Ystafelloedd Pwyllgor.

(7) Y dylid gosod cyswllt band eang 500mbps dynodedig yn yr Ystafell Glyweledol yn Siambr y Cyngor.

(8) Ar ôl ystyried / cymeradwyo'r adroddiad, bod yr agweddau perthnasol ynddo yn cael eu hystyried wrth gynnal adolygiad o'r Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad a oedd i fod i gychwyn yn fuan.

(9) Cyfeirio'r adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol er ystyriaeth. Pe na bai unrhyw argymhellion yn cael eu hanfon ymlaen i'r Cabinet, byddai penderfyniad y Cabinet yn cael ei dderbyn.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Sicrhau bod y Cabinet yn ymwybodol o’r gwaith sydd wedi’i wneud ers y diweddariad diwethaf i’r Cabinet ar 17 Tachwedd, 2022.

(2) Awdurdodi terfynu'r contract presennol â Civico.

(3) Awdurdodi'r dull arfaethedig o ganfod platfform Cyfarfodydd Hybrid amgen.

(4) Sefydlu contract priodol i gyflenwi a chefnogi platfform Cyfarfodydd Hybrid amgen sy'n bodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Canllawiau Statudol Interim Llywodraeth Cymru ar Gyfarfodydd Aml-leoliad (Awst 2021) a Pholisi Cyfarfodydd Aml-leoliad y Cyngor (fel y cytunwyd ym mis Ebrill 2022, ac fel y diwygiwyd ym mis Mawrth 2023), gan sicrhau hyblygrwydd os bydd anawsterau gweithredol yn codi.

(5) Creu tryloywder ynghylch trefniadau contractio arfaethedig y Cyngor.

(6) Ystyried arbedion effeithlonrwydd gweithredol a thechnegol yn gysylltiedig â mabwysiadu cynllun ystafelloedd sefydlog yn Siambr ac Ystafelloedd Pwyllgor y Cyngor.

(7) Tynnu'r platfform cyfarfodydd hybrid oddi ar rwydwaith cyfrifiaduron y Cyngor i liniaru rhag unrhyw bryderon TGCh posibl, a darparu cyswllt rhyngrwyd dynodedig, heb gystadleuaeth drosto, i hwyluso ffrydio cyfarfodydd hybrid byw o ansawdd dros y we.

(8) Er mwyn gallu adolygu'r Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad yn briodol.

(9) Er ystyriaeth y Pwyllgor Craffu ac/neu i symud y mater yn ei flaen.